

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 13eg Mai, 2024 drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Steve (SW), (Cadeirydd) Iolo Roberts (IPR), Iolo ap Gwynn (IAG), Richard (RR), Keith (KR), Dwynwen (DP), Dewi (DH), Gethin (GR), Sioned (SLL), Raymond (RG), Elen (EH), Eurig (EJ), Dilys (DAP).

1.	<u>DYMUNIADAU GORAU</u> Dymunwyd yn dda i Dwynwen fydd yn mynd ar daith breswyl y Clwb i'r Alban yn ddiweddarach yn y mis gyda'r bwriad o orffen dringo'r Munros yn ystod yr wythnos. Golyga hyn y bydd wedi cwblhau dringo'r 282 ohonynt.	
2.	<u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Ionawr, 2024 fel rhai cywir. Yn codi: <u>Cywiriad i eitem 4 Cyfarfod Blynyddol 2023</u> 1. Taliadau i'r Cyngor Mynydda Prydeinig - Nodwyd mai Gwyn Williams (Llanrwst) oedd wedi edrych i fewn i'r yswiriant a dderbynnir drwy ymaelodi â'r CMP ac nid y Trysorydd - IPR i gywiro'r cofnod.	
3.	<u>MATERION ARIANNOL</u> Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol Adroddodd <ul style="list-style-type: none">bod gan y Clwb 254 o aelodau bellach ac o bosib y byddai mwy yn ymaelodi yn dilyn y daith flasu yn gynharach yn ystod y misbod swm o oddeutu £9,000 gan y Clwb wrth gefn yn y banc ar hyn o bryd ac mai'r unig daliadau i'w gwneud oedd ar gyfer y daith breswyl i Inchree yn yr Alban yn ddiweddarach yn ystod y mis, am logi pabell yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer darlith y Clwb a thâl aelodaeth blynyddol y Clwb o £150 i'r Bartneriaeth Awyr Agored.bod oddeutu £300 ar ôl i'w wario yng nghronfa Goffa Gareth Pierce. Cytunwyd <ol style="list-style-type: none">nodi'r wybodaethgan fod SW eisoes wedi talu am logi slot ym Mhabell y Cymdeithasau yn yr Eisteddfod ar gyfer y ddarlith, y byddai DAP yn ei ddigolledubydd SW yn holi'r Urdd i weld oes modd defnyddio'r arian sy'n weddill yng nghronfa Gareth i'r un diben eto eleni.	
4.	<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2024</u> Adroddwyd gan IPR fod angen pennu dyddiad a lleoliad ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Clwb eleni. Cytunwyd y dylid anelu at gynnal y cyfarfod ar ddydd Sadwrn, 16eg Tachwedd 2024 ac IPR i	

wneud ymholiadau am leoliad yn ardal Beddgelert yn y lle cyntaf.

5. CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB

Adroddodd RR ar y materion canlynol:

- bod rhaglen lawn o weithgareddau yn y rhaglen bresennol sy'n ymestyn tan ddiwedd Awst a diolchodd i DH a Haf am eu cymorth i lunio'r rhaglen. Diolchodd hefyd i IAG am ei barodrwydd i addasu'r rhaglen ar y wefan yn ddi-oed pan fyddai raid newid manylion teithiau.
- ei fod wedi sylwi fod nifer sylweddol o deithiau heriol yn cael eu cynnig ar hyn o bryd ac yr hoffai weld gwell cydbwysedd yn y rhaglen.
- y cynhaliwyd taith flasu'r Clwb ar Foelydd yr Wyddfa ar 6ed Mai ac y cafwyd ymateb gwych gyda 19 o ddarpar aelodau newydd ar y daith a gobaith y bydd nifer ohonynt yn ymaelodi. Roedd yn trafod hefo SW a ellid cynnig rhywbeth cyffelyb ym mis Medi
- bod 2 daith breswyl yn ystod mis Mai, un eisoes wedi digwydd i Hawes o dan arweiniad Gwyn Williams (Llanrwst) gyda 19 o aelodau yn mynychu a thaith i'r Alban i ardal Inchree wedi ei threfnu yn ddiweddarach yn ystod y mis gyda 18 o aelodau yn mynychu. Mynegodd ei ddiolch i Gwyn a Keith (a oedd hefyd wedi trefnu taith gaeaf y Clwb i'r Alban) am eu gwaith diwyd
- ei fod wedi cael ymholiad gan un o'r aelodau a fynychodd yr wythnos yn Hawes yn gofyn oni fyddai wedi bod yn dda o beth os byddai deffib y Clwb wedi cael ei gario tra yno.
- Cafwyd trafodaeth am y sefyllfa parthed cario'r deffib ar deithiau preswyl . Roedd pawb yn gytun mai cael ei gario ar deithiau'r Clwb yng Nghymru oedd y prif ddiben y cytunwyd arno a bod natur teithiau preswyl y Clwb (yn arbennig y rhai i'r Alban) lle y byddai aelodau yn rhannu'n nifer o grwpiau yn mynd ar deithiau gwahanol yn ei gwneud yn anymarferol i ystyried mynd ag un deffib yno.

Cytunwyd

i. nodi'r wybodaeth

ii. bod y Pwyllgor yn bendant am lynu at y drefn y cytunwyd arni mai prif ddiben y deffibs sydd ym meddiant y Clwb yw eu defnyddio ar gyfer teithiau yng Nghymru. Fodd bynnag, os cyfyd taith breswyl lle mae'r aelodau sy'n mynychu yn tueddu i gyd-gerdded fel un grwp ac na fyddai yn cyd-daro â thaith yng Nghymru yna gellid ei gario yno. Byddai yn rhaid i arweinydd y daith breswyl sicrhau fod y deffib yn cael ei drosglwyddo mewn da bryd i arweinydd y daith olynol ar raglen weithgareddau'r Clwb yng Nghymru.

6 ARCHIF Y CLWB

Adroddodd SW ar y sefyllfa ddiweddaraf

- ei fod wedi cysylltu â Maldwyn ac Anet ac wedi derbyn swmp o ddeunydd ganddynt (yn cynnwys gwybodaeth ar gof bach gan Maldwyn), ei fod yn mynd trwyddynt yn raddol (yn dileu os angen manylion personol am aelodau) ac yn gobeithio y byddai wedi cwblhau'r dasg erbyn cyfarfod nesaf y Clwb ym mis Medi.
- bod IAG wedi methu cysylltu â Dei Tomos hyd yma i holi oes deunydd ganddo ef ond

	<p>byddai'n gwneud hynny unwaith iddo ddychwelyd o'i wyliau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y gobaith yw trosglwyddo'r wybodaeth i 'r Llyfrgell Genedlaethol ac y byddai yn cael ei rhoi ar wefan y Llyfrgell fel y bydd hanes sefydlu a dyddiau cynnar y Clwb wedi ei ddiogelu ac ar gael i'w weld gan unrhyw un yn y dyfodol • Gyda'r holl waith ymchwil am hanes cynnar y Clwb yn digwydd, ystyriwyd mai da o beth fyddai cael arddangosfa o luniau ac efallai sgwrs am ddyddiau cynnar y Clwb yn y Cyfarfod Blyneddol eleni os yn bosib. <p>Cytunwyd</p> <p>i diolch i SW am ei holl waith a nodi bod SLLJ yn barod i'w helpu gyda'r gwaith didoli a bod DAP am gael golwg ar y cof bach a dderbyniwyd gan Maldwyn i weld pa wybodaeth a sydd arno.</p> <p>ii cytuno (os bydd yn bosib ei drefnu) â'r syniad o gael arddangosfa o luniau a sgwrs fer am ddyddiau cynnar y Clwb a gofyn i SW holi Maldwyn a IAG holi Dei Tomos a fyddent yn fodlon rhoi'r sgwrs.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2024</u></p> <p>Adroddwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • bydd Gerallt Pennant yn rhoi'r ddarlith eleni a bod slot wedi ei archebu ar ei chyfer ar fore Sadwrn y 10fed o Awst ym Mhabell y Cymdeithasau. • bydd DH yn arwain taith y Clwb ddydd Mercher y 7fed o Awst yn ardal yr Eisteddfod • bod Curon Davies yn awyddus i drefnu, os yn bosib, weithgaredd dringo yn yr ardal ond ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth pellach hyd yma <p>Cytunwyd</p> <p>i. diolch i Gerallt Pennant am gytuno i roi darlith Goffa Llew Gwent yn yr Eisteddfod</p> <p>ii. byddai DP yn paratoi poster ar gyfer hysbysebu'r ddarlith i'w ledaenu ar y gwefannau cymdeithasol a threfnu copi JPEG o'r poster hefyd</p>	
<p>8.</p>	<p><u>CARDIAU AELODAETH ELECTRONEG</u></p> <p>Ystyriwyd , ar gais DAP, a fyddai modd defnyddio ffurf electroneg i ddosbarthu cardiau aelodaeth i'r aelodau. Credai, gyda'r holl ddatblygiadau technoleg cyfredol, y gallai fod ffordd o wneud hyn a fyddai yn arwain at arbediad ariannol i'r Clwb wrth wneud i ffwrdd â chostau postio ac ati.</p> <p>Yn y drafodaeth roedd cytundeb ei bod werth ystyried hyn ond bod angen mwy o wybodaeth ar y Pwyllgor. Soniodd DP ei bod yn ymwybodol o gymdeithas oedd wedi hepgor y defnydd o gardiau aelodaeth papur.</p> <p>Cytunwyd byddai SW yn cael gair gydag Adrian Hughes, aelod o'r Clwb sy'n Swyddog Technoleg Gwybodaeth gydag awdurdod lleol ac y byddai DP yn gwneud ymholiadau pellach gyda'r gymdeithas y cyfeiriodd ati.</p>	
<p>9.</p>	<p><u>MATERION CMP</u></p> <p>Adroddodd SW</p>	

	<ul style="list-style-type: none"> • bod gan y CMP Brif Weithredwr newydd bellach, sef Paul Ratcliffe, sy'n awyddus i gyfarfod, drwy gyfrwng Zoom, â chynrychiolwyr clybiau sy'n aelodau o'r CMP • cynhaliwyd y cyfarfod rhanbarthol diwethaf yn Queensferry ac iddo fethu mynychu • bod boltiau ar gyfer dringwyr wedi eu gosod heb ganiatâd ar glogwyn ar Foel y Gest, ond ar ôl cwynion roeddynt bellach wedi cael eu tynnu i lawr. Roedd Tim Jepson ac aelodau eraill o'r CMP wedi bod o gwmpas canolfannau awyr agored i geisio lledaenu'r neges ynglŷn â gosod rhain heb ganiatad. • bod y CMP wedi derbyn gwahoddiad i yrru cynrychiolydd i Grŵp Diogelwch Gogledd Cymru sydd ag aelodaeth o blith Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill gyda'r amcan o ledaenu gwybodaeth am fynydda diogel a chyfrifol. <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a chytuno i SW fynychu'r cyfarfod Zoom y cyfeirir ato uchod. .</p>	
<p>10.</p>	<p><u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Adroddwyd ar y canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod y Clwb wedi talu tâl aelodaeth blynyddol o £150 i'r Bartneriaeth sy'n golygu bod cymorth o hyd at £500 ar gael ar gyfer hyfforddiant mynydda i aelodau • bod cwrs cymorth cyntaf ar gael i aelodau'r de ond gan ei fod yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn hytrach nag ar benwythnos, dim ond EJ oedd yn gallu mynychu <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth</p>	
<p>11.</p>	<p><u>TAITH MYNYDDA GAEAF YN YR ALBAN</u></p> <p>Adroddodd KR y cafodd drafodaeth gyda nifer o'r aelodau a fu ar daith gaeaf y Clwb i'r Alban eleni ynglŷn â threfniadau ar gyfer taith breswyl 2025. Roedd nifer wedi datgan eu bod yn hapus gyda'r trefniadau gyda'r gwesty yng Nghriarlarich a gan fod amrywiaeth o wahanol ddewisiadau ar gyfer teithiau yn yr ardal y byddai'n werth ystyried dychwelyd yno eto flwyddyn nesaf. Gofynnodd am arweiniad gan y Pwyllgor.</p> <p>Roedd cytundeb fod y gwesty yng Nghriarlarich yn lleoliad da ar gyfer taith aeaf y Clwb i'r Alban ond byddai'n well ystyried ei chynnal yn ystod wythnosau cynnar mis Mawrth pan fyddai'r dydd wedi ymestyn a dal posibilrwydd o gael eira.</p> <p>Cytunwyd gofyn i KR gysylltu â'r gwesty yng Nghriarlarich i holi am y posibilrwydd o drefnu wythnos yno yn nechrau Mawrth 2025.</p>	
<p>12.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 2il o Fedi, 2024, drwy gyfrwng Zoom.</p>	